


Mae Cronfa Bensiynau Clwyd wedi ymrwymo i wneud buddsoddiadau sy'n seiliedig ar leoedd. Mae'r rhain mewn cronfeydd sy'n buddsoddi yng Nghymru neu'n cyfrannu at greu effaith cymdeithasol ac amgylcheddol cadarnhaol ar draws y DU.

- £273 miliwn wedi'i ymrwymo i fuddsoddiadau yn seiliedig ar leoedd (11% o werth Cronfa Bensiynau Clwyd)
- £90 miliwn wedi'i neilltuo i gronfeydd sy'n buddsoddi yng Nghymru yn unig
- £160.6 miliwn wedi ei fuddsoddi mewn 225 asedau ledled y DU ar hyn o bryd
- O hyn, mae £54 miliwn wedi ei fuddsoddi mewn 35 ased ledled Cymru
- Dros y flwyddyn ddiwethaf, buddsoddwyd £1.9 miliwn mewn asedau newydd yng Nghymru a £10.8 miliwn ychwanegol yng ngweddill y DU.

Sut yr ydym yn buddsoddi (% y swm a fuddsoddwyd)



Sut mae ein Buddsoddiad yn Cefnogi Cymru a'r DU



- **80** busnes yn cael eu cefnogi ar hyn o bryd trwy gyllid ecwiti neu ddyled, **26** yng Nghymru. **13** busnes newydd wedi cael cefnogaeth yn y flwyddyn ddiwethaf.
- Mae'r busnesau hyn yn rhoi cyfrif am dros **13,019 o swyddi** gyda **16%** o swyddi yng Nghymru.
- O leiaf **1,127 o swyddi newydd** wedi eu creu ers buddsoddiad gydag **31%** mewn busnesau Cymreig.
- **16** busnes yn Gyflogwyr Cyflog Byw achrededig neu'n talu'r Cyflog Byw i bob gweithiwr, cynnydd o'r 15 busnes y llynedd.



- **22 ased tai** gan gynnwys
- **9** datblygiad tai yn cynnwys **2,793 o gartrefi** i dros **5,750 o bobl**. **12%** o gartrefi yn fforddiadwy.
- **9** cartref byw â chymorth a chartrefi i'r henoed ar gyfer hyd at **539 o breswylwyr**.
- **3** datblygiad yn darparu llety i bron i **911 o fyfyrwyr**.



- **57 ased isadeiledd** gan gynnwys:
- **36** cyfleuster addysgol wedi'u caffael, gan gynnwys **8** ysgol AAA yn y flwyddyn ddiwethaf, **3,387 o** leoedd ychwanegol i blant (77% lleoedd meithrin, 19% AAA, 4% lleoedd ysgol annibynnol).
- **20 o gyfleusterau iechyd**, yn cynnwys **16** a fuddsoddwyd ynddynt eleni, sy'n cefnogi dros **163,450 o** leoedd gofal sylfaenol
- **1** cyfleuster dŵr a gwastraff





- **62 o brosiectau eiddo tirol** (yn cael eu datblygu neu'n weithredol)
- **31** prosiect eiddo tirol masnachol yn cefnogi man cyflogaeth i amcangyfrif o **7,944 o bobl** (26% yn yr awdurdodau lleol mwyaf difreintiedig yn y DU).
- **31** ased eiddo tirol hamdden yn cefnogi **764** swydd cyflog byw barhaol a **47** swydd dymhorol, **16%** o asedau hamdden yng Nghlwyd.




- **£36.7 miliwn** wedi'i fuddsoddi i ddatblygu prosiectau ynni glân yng Nghymru.
- Potensial ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy **32,512 MWh**, sy'n cyfateb i bweru **563,112 o gartrefi**.

Ble'r ydym yn buddsoddi (% y swm a fuddsoddwyd)

Mae 34% o bortffolio Effaith ac yn Seiliedig ar Leoedd y Gronfa wedi'i fuddsoddi yng Nghymru, sydd wedi cynyddu o 27% y llynedd.




Sut mae ein buddsoddiadau’n alinio â nodweddion buddsoddi’n seiliedig ar effaith a lleoedd



Mae'r strategaeth fuddsoddi yn ystyried anghenion **LLEOEDD** ac yn ymgysylltu â budd-ddeiliaid lleol?

Ein math o effaith (% y swm a fuddsoddwyd)



Dosbarthiadau Effaith

Cyfrannu at Ddatrysiadau
O fudd i fudd-ddeiliaid
Osgoi Niwed
Dim Data (gallai achosi niwed)

Yn seiliedig ar 'The ABC of Impact', Impact Frontiers

Astudiaeth Achos: Cefnogi Ymrwymiad Cymru i Busnesau Bach a Chanolig

Cronfeydd Buddsoddi Rhanbarthol Foresight

Mae ‘Foresight Group’ yn rheolwr buddsoddi byd-eang sy'n gweithredu ar draws sawl dosbarth asedau, gan gynnwys asedau gwirioneddol, ynni glân ac ecwiti preifat. Mae ei gyfres o gronfeydd buddsoddi rhanbarthol, y mae wyth cronfa ohonynt ar hyn o bryd, yn mynd i'r afael â'r bwlch cyllido ar gyfer busnesau llai yn y DU ac Iwerddon, ac yn cefnogi creu swyddi, datblygu sgiliau ac arloesi lleol mewn rhanbarthau sy'n cael eu tanwasanaethu. Mae'r cronfeydd yn darparu elw masnachol wrth helpu i ddatgloi potensial rhanbarthol yn y DU ac Iwerddon.

Cafodd Foresight Regional Investment LP (FRIF) ei lansio yn 2018 ac yr oedd yn cael ei gefnogi gan fuddsoddwyr Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i sianelu cyfalaf i fusnesau bach a chanolig rhanbarthol yng Ngogledd-orllewin Lloegr, De a Dwyrain Swydd Efrog a Gogledd Cymru. Mae'r gronfa wedi buddsoddi mewn busnesau bach a chanolig drwy gyfalaf twf, rheolwyr yn prynu cyfrannau a rhyddhau ecwiti. Nod y strategaeth yw helpu i gynhyrchu cyfraniadau cadarnhaol i'r amgylchedd, y gweithle a chymunedau drwy gefnogi ymwybyddiaeth a gwelliant amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu mewn busnesau y buddsoddir ynddynt. Ers lansio'r FRIF blaenorol, mae Foresight wedi mynd ymlaen i lansio FRIF III ac yn fwyaf diweddar FRIF VIII fel cronfeydd olynol i FRIF sy'n canolbwyntio ar yr un ôl troed rhanbarthol gan gefnogi busnesau lleol yn y rhanbarth.

Mae Foresight yn ymgorffori egwyddorion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu yn ei weithgareddau buddsoddi. I gefnogi hyn, caiff pob portffolio ei asesu yn erbyn 100 o ddangosyddion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu sy'n ymdrin â llywodraethu, gweithlu a rheolaeth amgylcheddol. Mae'r cronfeydd yn defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac sy'n nodi ac yn mesur cyfraniad cwmnïau portffolio at bedwar her gymdeithasol allweddol sy'n cael eu haddysgu a'u llywio gan Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig: cyflogaeth o safon ar raddfa fawr, iechyd, ymchwil ac arloesi, ac isadeiledd cynaliadwy a'r amgylchedd.

	Foresight Regional Investment LP	Foresight Regional Investment III LP
Cyfanswm wedi'i ymrwymo	£58 miliwn	£110 miliwn
Cyfanswm wedi'i fuddsoddi	£59 miliwn	£79 miliwn
Cyfraniad Cronfa Bensiynau Clwyd	21% (£12 miliwn wedi'i ymrwymo)	11% (£12 miliwn wedi'i ymrwymo)

Rooms & Views

Ymrwymiad buddsoddi: £3.75 miliwn

Yn 2022, buddsoddodd Foresight Regional Investment III LP yn Rooms & Views, gwneuthurwr ffenestri a drysau uPVC wedi'i leoli ym Mwcle, Clwyd. Mae'r cwmni'n cyflenwi adeiladwyr tai a chrefftwyr ledled Cymru a Gogledd Cymru, ac yn cynhyrchu dros 60,000 o ffenestri'r flwyddyn.

Nod buddsoddiad Foresight yw cyflymu twf a chryfhau capasiti Rooms & Views, gan gynnwys cynyddu gallu gweithgynhyrchu a chyflwyno cownteri masnach newydd i gryfhau cyrhaeddiad marchnadoedd busnes i fusnes. Mae ffenestri uPVC hefyd yn elfen allweddol wrth wella perfformiad ynni cartrefi, ac yn cefnogi darparu cartrefi ac adeiladau mwy effeithlon o ran ynni. Amcangyfrifir bod arbedion ynni blyneddol o gynhyrchion Rooms & Views a gyflenwyd yn 2024 yn fwy na 6,000 CO2t – pedair gwaith yn uwch nag yn ystod y buddsoddiad.

Mae'r buddsoddiad yn cefnogi parhad a thwf cyflogaeth yng Ngogledd Cymru, ac yn diogelu swyddi gweithgynhyrchu. Ers y buddsoddiad, mae **127 o staff ychwanegol** wedi cael eu cyflogi, gan olygu bod cyfanswm y gyflogaeth yn **267**. Mae'r cwmni wedi'i achredu yn gyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol. Mae cyfran y gweithlu sydd mewn swyddi sy'n gofyn am sgiliau penodol wedi bod yn cynyddu'n gyson. Mae'r busnes hefyd yn dangos ei ymrwymiad i'r gymuned leol drwy noddi Clwb Pêl-droed Treffynnon a chefnogi elusennau lleol.



Portffolio Cronfa Bensiynau Clwyd yn seiliedig ar Effaith a Lleoedd

Enw'r Gronfa	Enw Rheolwr y Gronfa	Ymrwymiad Cronfa Bensiynau Clwyd (£)	Cyfran Clwyd (% o'r cyfanswn a ymrwymwyd)	Portffolio	Adroddwyd: Nodweddion PBII	Adroddwyd: Allbynnau	Adroddwyd: Dosbarthiad IMP
August Equity	AEP IV ALP	£8,000,000	4%	Ecwiti Preifat	●	●	●
August Equity	AEP IV ALP	£8,000,000	3%	Ecwiti Preifat	●	●	●
Bridges Fund Management Limited	Bridges Sustainable Growth Fund III LP (SGF III)	£5,000,000	4%	Effaith	●	●	●
Bridges Fund Management Limited	Bridges Sustainable Growth Fund IV LP (SGF IV)	£8,000,000	10%	Effaith	●	●	●
Bridges Fund Management Limited	Bridges Sustainable Growth Fund IV(B) LP (SGF IV(B))	£11,000,000	13%	Effaith	●	●	●
Bridges Fund Management Limited	Bridges Sustainable Growth Fund III LP (BPAF III)	£5,000,000	2%	Effaith	●	●	●
Bridges Fund Management Limited	Bridges Sustainable Growth Fund IV LP (BPAF IV)	£8,000,000	4%	Effaith	●	●	●
Bridges Fund Management Limited	Bridges Sustainable Growth Fund VLP (BPAF V)	£11,000,000	3%	Effaith	●	●	●
Bridges Fund Management Limited	Bridges Sustainable Growth Fund VI LP (BPAF VI)	£10,000,000	4%	Effaith	●	●	●
Capital Dynamics Limited	Capital Dynamics CEI (Clwyd), LP	£80,000,000	100%	Effaith	●	●	●
Darwin Alternative Investment Management	Darwin Leisure Development Fund	£8,000,000	4%	Eiddo	●	●	●
Darwin Alternative Investment Management	Darwin Leisure Property Fund	£21,038,272	5%	Eiddo	●	●	●
FW Capital Limited	Management Succession (Wales) Limited Partnership	£10,000,000	40%	Effaith	●	●	●
ECI Management Limited	ECI 10 LP	£5,000,000	1%	Ecwiti Preifat	●	●	●
ECI Management Limited	ECI 11 LP	£8,000,000	1%	Ecwiti Preifat	●	●	●
ECI Management Limited	ECI 12 LP	£20,000,000	2%	Ecwiti Preifat	●	●	●
Foresight Group LLP	Foresight Regional Investment III LP	£12,000,000	11%	Effaith	●	●	●
Foresight Group LLP	Foresight Regional Investment LP	£12,000,000	21%	Effaith	●	●	●
Newcore Capital	Newcore Strategic Solutions IVLP	£8,000,000	10%	Eiddo	●	●	●
Newcore Capital	Newcore Strategic Solutions VLP	£15,000,000	8%	Eiddo	●	●	●

Allwedd

Adroddwyd: Nodweddion PBII	Adroddwyd: Allbynnau	Adroddwyd: Dosbarthiad IMP
Dangos a yw'r rheolwr Cronfa wedi hunanasesu ac adrodd ar aliniad gyda nodweddion PBII (bodloni anghenion lleol, ymgysylltu â budd-ddeiliaid, bwriadoldeb, rheoli effaith) ar gyfer pob Cronfa.	Dangos a yw'r rheolwr Cronfa wedi nodi metrig allbynnau ar gyfer o leiaf un Gronfa.	Dangos a yw'r rheolwr Cronfa wedi hunanasesu ac adrodd ar fabwysiadu Fframwaith ABC Prosiect Rheoli Effaith gan TGE, sy'n nodi effaith asedau.

- Gwybodaeth heb ei chofnodi
- Adrodd rhannol neu gyflawn

Hoffai Cronfa Bensiynau Clwyd a The Good Economy ddiolch i'r holl reolwyr cronfeydd sydd wedi cyfranogi yn Fframwaith Adrodd PBII.